



**Embargo tan 10am 14 Chwefror 2020**

## **Cyhoeddi Enillwyr Hearts For The Arts 2020**

- **Gwobrau sy'n cydnabod arwyr tawel lleol y celfyddydau cymunedol yn y DU**
- **Mae gŵyl Hackney Windrush, elusen cerddoriaeth gymunedol o Plymouth a chwmni theatr sy'n helpu'r rheini a effeithiwyd gan gaethiwed ymhlith yr enillwyr eleni**
- **Wedi'u beirniadu gan bobl adnabyddus ym meysydd y celfyddydau a'r gwyddorau: Susie Dent, Gary Kemp, Julie Hesmondhalgh, Alom Shaha, Errollyn Wallen, Kirstie Wilson a Samuel West**
- **Bydd y gwobrau'n cael eu cyflwyno gan Samuel West yng Nghynhadledd Diwylliant a Thwristiaeth Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol 2020, ar 2 Mawrth**

Mae'r enillwyr wedi'u cyhoeddi ar gyfer Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau (NCA), **Gwobrau Hearts For The Arts 2020**. Mae'r gwobrau'n dathlu arwyr tawel Awdurdodau Lleol sy'n hyrwyddo'r celfyddydau, yn aml yn wyneb heriau ariannol difrifol.

### **Rhestr o'r enillwyr:**

- **Menter Gelfyddydol Orau: Plymouth Music Zone (Cyngor Dinas Plymouth)**
- **Prosiect Celfyddydol Gorau – Cydlyniant Cymunedol: Windrush Generations Festival (Cyngor Hackney)**
- **Prosiect Celfyddydol Gorau – Celfyddydau, Iechyd a Lles: Outside Edge (Hammersmith a Fulham / Westminster / Kensington a Chelsea)**
- **Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau – Gweithiwr mewn Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol: Pauline Smeaton (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Fife)**
- **Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau – Cynghorydd: Luthfur Rahman (Cyngor Dinas Manceinion)**

Derbyniwyd enwebiadau o bob cwr o'r DU ar gyfer y Gwobrau eleni, ac ar ôl i gynrychiolwyr o bartneriaid Hearts for the Arts eleni lunio'r rhestr fer, cafodd yr enillwyr eu dewis gan banel o arbenigwyr ac ymarferwyr allweddol ym meysydd y celfyddydau a'r gwyddorau.

### **Panel Beirniadu:**

- **Susie Dent: geiriadurwraig, etymolegydd, cyflwynydd 'Dictionary Corner' Countdown**
- **Gary Kemp: actor, cerddor, cyfansoddwr caneuon, aelod gwreiddiol o Spandau Ballet**
- **Julie Hesmondhalgh: actores, gweithredydd**

- Alom Shaha: Athro Ffiseg, tad, awdur *Mr Shaha's Recipes for Wonder*
- Errollyn Wallen CBE: Cyfansoddwr
- Kirstie Wilson: Cyngor Kirklees, enillydd Hyrwyddwr Celfyddydol Gorau mewn Awdurdod Lleol 2019 Hearts for the Arts - Swyddog
- Samuel West: Actor, cyfarwyddwr, Cadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau

Dywedodd Samuel West, actor a Chadeirydd Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau:

'Llongyfarchiadau i enillwyr Hearts for the Arts 2020 NCA. Maen nhw'n dod o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, ac maen nhw'n dangos y pethau da y gellir eu gwneud gan gynghorau ac ymddiriedolaethau sy'n benderfynol o osod y celfyddydau a diwylliant wrth wraidd bywydau dinasyddion. Mae'r gwaith y mae'r mudiadau a'r unigolion hyn yn ei wneud yn ein dwyn ynghyd i wella, dathlu a rhoi mwynhad i'n cymunedau.

Roedd dewis enillwyr o blith maes cryf eithriadol yn arbennig o anodd eleni, ond roedd yn dasg bleserus. Dywedodd un o'r beirniaid, Susie Dent o'r 'Dictionary Corner', fod beirniadu'r rheini a enwebwyd yn "noddfa ddyddiol a oedd yn fy atgoffa o'r pethau – a'r bobl – dda mewn bywyd."

Ar adeg lle y mae toriadau llywodraeth ganolog yn rhoi pwysau aruthrol ar gyllidebau Awdurdodau Lleol, rydym yn hapusach nag erioed i ddathlu'r cynghorau hynny sy'n defnyddio'r celfyddydau i ddod â llawenydd, anogaeth ac iechyd meddyliol a chorfforol achubol i'w hetholwyr. Rydyn ni'n dwli arnyn nhw ac am iddyn nhw barhau!

Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau sy'n cyflwyno Gwobrau Hearts For The Arts bob blwyddyn. Caiff y gwobrau eu darparu gan UK Theatre, mewn partneriaeth â [Culture Counts](#); y [Gymdeithas Llywodraeth Leol](#); [Thrive](#); [Theatre NI](#), [Celfyddydau Gwirfoddol Cymru](#) a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

I gael rhagor o wybodaeth am y rheini a gyrhaeddodd y rhestr fer, ewch i [forthearts.org.uk/campaigns/hearts-for-the-arts/](http://forthearts.org.uk/campaigns/hearts-for-the-arts/)

Campaign by



Delivered by



In partnership with



-Diwedd-

## Nodiadau i olygyddion:

- Mae **Hearts For The Arts** yn un o fentrau Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau, a ddarperir gan UK Theatre, mewn partneriaeth â Culture Counts; y Gymdeithas Llywodraeth Leol; Theatre NI; Thrive; Cyngor Celfyddydau Gwirfoddol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.
- Mae **Ymgyrch Genedlaethol y Celfyddydau** (NCA) yn elusen ac yn sefydliad annibynnol sy'n ymgyrchu. Caiff ei rhedeg gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Maen nhw'n ymgyrchu dros gynyddu'r buddsoddiad yn y celfyddydau er mwyn gwella bywydau pawb; ac maen nhw'n hyrwyddo'r rheini sy'n gwneud hynny. [forthearts.org.uk](http://forthearts.org.uk)
- **UK Theatre** yw'r prif fudiad celfyddydau perfformio a theatr i aelodau yn y DU. Mae'n hyrwyddo rhagoriaeth, datblygiad proffesiynol, ac yn ymgyrchu i wella gwydnwch a chynyddu cynulleidfaoedd ar draws y sector. [uktheatre.org](http://uktheatre.org)